## Cynllun Archwilio 2023-24

| Gweithgaredd | Dull archwilio amlinellol | Amser | Ffynonellau | Mewnol/allanol | Amcangyfrif o’r diwrnodau | Dyddiad targed cyfarfod ARAC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau'r Senedd - Profi Cardiau Caffael | Adolygu gwariant ar gardiau caffael – asesu lefel y gwariant a’r ffordd y caiff y gwariant hwn ei reoli. | Mehefin 2023 | Defnydd cynyddol o wariant ar gardiau caffael yn ystod y pandemig a chyda mwy o weithio o bell. Risg bosibl i enw da’r sefydliad os yw'r cardiau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd amhriodol. | Allanol | 5 | Tachwedd 2023 |
| Trawsadrannol - Adolygiad o’r trefniadau ar gyfer llywodraethu prosiectau a rhaglenni | Adolygu cyflawnrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer prosiectau a rhaglenni'r Comisiwn. | Drwy gydol y flwyddyn | Mae newid trawsnewidiol sylweddol yn digwydd drwy ddwy raglen sylweddol, sef y gwaith ar ddiwygio’r Senedd ac ar ffyrdd o weithio. Nodwyd dwy risg gorfforaethol mewn perthynas â'r meysydd hyn. | Mewnol | 19 | Tachwedd 2023<br><br>Chwefror 2024<br><br>Ebrill 2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes y Senedd – Y broses ar gyfer gwneud Penodiadau Cyhoeddus | Adolygiad archwilio o’r systemau a’r prosesau sydd ar waith i gefnogi Pwyllgorau yn eu rolau mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus. | Tachwedd 2023 | Mae yna risg i enw da’r sefydliad a risg o ran gwerth am arian yn gysylltiedig â’r maes hwn os na chaiff y broses ei rheoli’n dda ac os nad yw’n effeithlon. | Mewnol | 8 | Chwefror 2024 |
| Adnoddau’r Senedd - Rheoli contractau a chaffael | Adolygiad system gyfan o drefniadau ar gyfer rheoli contractau a chaffael ar draws Comisiwn y Senedd – yn ystyried cydymffurfiaeth â rheolau caffael a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer rheoli contractau. | Rhagfyr 2023 | Bellach, mae’r nifer uchaf erioed o gontractau yn cael eu cyflwyno a’r lefel uchaf erioed o weithgarwch caffael yn digwydd, sy’n rhoi pwysau sylweddol ar gapasiti’r tîm Caffael, gan arwain at risg uwch o fylchau yn y camau a gymerir i reoli’r gweithgarwch hwn. | Allanol | 10 | Chwefror 2024 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Effeithiolrwydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu. | Ionawr 2024 | Mae hwn yn faes sydd â phroffil uchel ac un sydd o ddiddordeb mawr i’r Comisiwn o ran ymgysylltu â phobl Cymru, felly mae angen | Allanol | 5 | Chwefror 2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | sicrwydd arnom ei fod yn cael ei reoli'n dda. | | | |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Seiberddiogelwch | Mae adolygiadau blynyddol o reolaethau'r Comisiwn o ran seiberddiogelwch yn parhau. O gofio natur ddeinamig y maes hwn, mi fydd yn rhan o'r cynllun archwilio blynyddol. | Chwefror 2024 | Risg gorfforaethol TGCh 16 – Bod y prosesau presennol ar gyfer canfod, amddiffyn ac ymateb yn methu â diogelu'r Senedd yn erbyn ymosodiadau seiber. | Allanol | 10 | Ebrill 2024 |
| Adnoddau'r Senedd (a thrawsadrannol) – Cynllunio'r Gweithlu | Archwiliad o'r gweithdrefnau a'r rheolaethau sydd ar waith mewn perthynas â dull gweithredu'r Comisiwn ar gyfer cynllunio'r gweithlu. | Mawrth 2024 | Risg gorfforaethol o ran capasiti a gallu, gyda'r risg y gallai rheolaethau aneffeithiol yn y maes hwn olygu na all y Comisiwn fodloni gofynion cynyddol a newidiol, yn ogystal â chael effaith andwyol ar lesiant staff y Comisiwn. | Mewnol | 10 | Ebrill 2024 |
| Busnes y Senedd - Ad-dalu Treuliau Aelodau'r Senedd | • Adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli mewnol sydd ar waith ar gyfer ad-dalu treuliau Aelodau yn ystod 2023-24.<br>• Mae'r archwiliad yn gofyn am sicrwydd: | Parhaus | Rhan sefydlog o'r rhaglen Archwilio Mewnol – yn parhau er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol ynghylch y maes sensitif hwn o wariant gan y Comisiwn. | Mewnol | 19 | Drwy gydol y flwyddyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | bod yr hawliadau a gyflwynir gan Aelodau yn destun gwiriadau a rheolaethau priodol; bod taliadau ond yn cael eu gwneud ar gyfer hawliadau dilys a chyflawn; a bod yr hawlwyr yn ystyried gwerth am arian. | | | | | |
| Gwaith dilynol ar argymhellion archwilio y flwyddyn flaenorol | Gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn Adroddiadau Archwilio Mewnol y flwyddyn flaenorol | Parhaus | Rhan o raglen dreigl Archwilio Mewnol flynyddol | Mewnol | 5 | Drwy gydol y flwyddyn |

**Amser wedi'i Ddyrannu’n Fanwl ar gyfer y Pennaeth Archwilio Mewnol**

| **Gweithgaredd Archwilio** | **Amser** | **Amcangyfrif o’r diwrnodau** |
|---|---|---:|
| Fframwaith Sicrwydd a Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Ionawr/Chwefror a Gorffennaf | 5 |
| Gwiriadau rheoli ychwanegol i sicrhau ansawdd datganiadau ariannol / y broses o baratoi cyfrifon drafft | Mai/Mehefin | 5 |
| Cyngor a chanllawiau ynghylch archwilio i reolwyr a thimau | Parhaus | 6 |
| Gwaith arall ar faterion sicrwydd a llywodraethu – gan gynnwys cefnogi personél cyllid newydd | Parhaus | 40 |
| Rheoli'r Contract Archwilio Mewnol | Parhaus | 3 |
| Recriwtio, y broses gynefino a chwrdd â Chynghorwyr Archwilio Mewnol | Parhaus | 5 |
| Adolygiad o waith allanol | Parhaus | 10 |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (paratoadau, cyfarfodydd a chamau gweithredu) | Dyddiadau targed allweddol: Tachwedd, Chwefror, Ebrill a Mehefin | 10 |
| Ymrwymiadau i’r Fforwm Archwilio Mewnol Seneddol | Medi, Ionawr a Mawrth | 7 |
| Cyswllt Archwilio (Allanol – Mewnol) | Parhaus | 5 |
| Cynllunio ar gyfer 2024-25 | Ionawr – Mawrth | 5 |
| Hyfforddiant a Gwaith Gweinyddol | Parhaus | 10 |
| Amser wrth gefn | Amherthnasol | 15 |
| Sicrhau Ansawdd a Chynllun Gwella | Parhaus | 5 |
| Gwaith mewnol | Parhaus | 64 |
| Dyletswyddau fel rheolwr llinell y tîm Llywodraethu (PDR, cyfarfodydd cyswllt, cyfarfodydd tîm ac ati) | Parhaus | 15 |
| Cyfrifoldebau fel Pennaeth Gwasanaeth (Tîm Arwain, Rheoli Risg, Rheoli Contractau) | Parhaus | 19 |
| Cyfanswm | Amherthnasol | **230** |